



CYNGOR TREF RHUTHUN  
RUTHIN TOWN COUNCIL

### **Nodiadau canllaw – Cais am gymorth ariannol**

#### **Darllenwch y canlynol yn ofalus cyn llenwi'r ffurflen gais, os gwelwch yn dda**

1. Rhwir cymorth ariannol i **gymdeithasau gwirfoddol / nad ydynt yn gwneud elw** a leolir y tu mewn i ffiniau Cyngor Tref Rhuthun, yn bennaf.
2. Serch hynny, mae gan y Cyngor yr hawl, dan amgylchiadau arbennig, i ystyried cymdeithasau sydd o'r tu allan i'r dref os gellir dangos y bydd y cymorth ariannol y gwnaed y cais amdano o fudd i bobl Rhuthun, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.
3. **Yn unol ag Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, ni all unigolion preifat gael eu hystyried ar gyfer cymorth ariannol.**
4. Rhaid i gais am gymorth ariannol gael ei chyflwyno drwy ddefnyddio'r ffurflen gais briodol, **ynghyd** ô chopi o'r fantolen ariannol briodol a/neu ddatganiad cyfrifon **Ni ddylid cyflwyno unrhyw gais heb y dogfennau cefnogol priodol.**
5. Disgwylir i fudiadau y rhwir cymorth ariannol iddynt ddilyn polisi'r Cyngor o drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd, gydag esboniad o sut y bwriedir gwneud hyn.
6. Dylai ymgeiswyr nodi yr ystyrir cymorth ariannol ar gyfer prosiect neu brosiectau **penodol** y bwriada'r **gymdeithas** ymgymryd â nhw. **Ni ystyrir** cymorth ariannol ar gyfer costau cynnal neu gostau hysbysebu'r gymdeithas.
7. Er mwyn sicrhau bod digon o arian ar gael i ariannu pob cais am gymorth ariannol a dderbynnir yn ystod y flwyddyn ariannol, mae'r Cyngor Tref wedi nodi uchafswm o £1,500 i bob cais. Er hynny, yn dilyn archwiliad gofalus a cheisio rhagor o wybodaeth, os bydd angen, gellir ystyried ceisiadau am gymorth ariannol gwerth mwy na £1,500 os yw'r cais yn cyfiawnhau swm uwch.
8. Dan ddarpariaeth Adran 137 os bydd unrhyw gymorth ariannol a roir gan Gyngor Tref Rhuthun yn fwy na **£1,000 bydd rhaid** i'r ymgeisydd gyflwyno adroddiad ysgrifenedig ar sut y gwariwyd yr arian. Rhaid cyflwyno'r adroddiad i Gyngor Tref Rhuthun cyn pen **6 mis** ar ôl cwblhau'r digwyddiad / prosiect – caiff yr adroddiad fod ar ffurf adroddiad blynyddol neu gyfrifon a fydd yn dangos y gwariant yn glir.